# Ysgol Treganna

## Cylchlythyr wythnosol



## Wythnos yma

### Sioeau Blwyddyn 4,5 a 6

Diolch i ddisgyblion blynyddoedd 4,5 a 6 cymunedau Pwyll, Branwen a Manawydan am berfformiadau gwych yr wythnos yma! Teitl y sioe oedd "Y byd i gyd yn grwn". Cafodd y sioe ei seilio ar hysbyseb John Lewis, "Dyn ar y lleuad". Cawsom wledd o ganu gwych, actio arbennig a dawnsio bywiog a brwdfrydig dros ben! Roedd neges arbennig yn y sioe, sef pwysigrwydd dangos cariad at eraill,bod yn garedig a bod yn rhan o deulu, sef ein gwerthoedd ni yma yn Ysgol Treganna. Roedd yn hyfryd i weld y neuadd yn orlawn bob nos, a diolch i rieni a chymuned yr ysgol am eich cefnogaeth. Diolch hefyd i'r staff am eu holl waith yn paratoi'r disgyblion ar gyfer sioeau'r wythnos hon. Edrychwn ymlaen yn fawr ar sioeau Mabon, Bedwyr ac Olwen ( y dosbarthiadau Derbyn) a Math ( y dosbarth Meithrin) wythnos nesaf.

Bydd sioe y dosbarthiadau Derbyn ar brynhawn dydd Llun, yr 16eg o Ragfyr am 2.00yp, a sioe y Feithrin ar ddydd Iau y 19eg o Ragfyr, am 10.00yb a 200yp.

### Ffair Pontcanna

Dydd Sul, y 15fed o Ragfyr bydd côr yr ysgol, sef disgyblion o flynyddoedd 4,5 a 6 yn canu yn Ffair Pontcanna am 3.15yp tan 3.45yp yng ngherddi Plasturton. https://www.mypacer.com/parks/230619/plasturton-gardens-cardiff CF119HG. Os ydy eich plentyn yn canu, gofynnwn iddynt wisgo'n Nadoligaidd ac yn gynnes ac nid oes angen gwisg ysgol. Edrychwn ymlaen yn fawr at y perfformiad!

### Cinio Nadolig

Bydd cinio Nadolig yr ysgol ar ddydd Mercher, y 18fed o Ragfyr. Cofiwch arhebu fel arfer ar Parent Pay.

### Diwrnod HMS mis Ionawr

Cofiwch fod diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd gennym ar ddydd Llun, y 6ed o Ionawr. Bydd y disgyblion yn ail gychwyn ar ôl y gwyliau Nadolig ar ddydd Mawrth, y 7fed o Ionawr.

## Calendr


**Cinio Nadolig**
**18.12.24**

**Diwrnod ola'r tymor**
**20.12.24**

## Y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon

Cofiwch fod dal cyfle i brynu anrhegion o “Elfridges”, sef Siop Nadolig y GRhA.
Dyma linc i siop y GRhA.

**https://ysgol-gymraeg-treganna-parent-teacher-association.sumupstore.com**






## Llau Pen

Gofynnwn yn garedig i chi wirio gwallt eich plentyn yn aml ar gyfer llau pen, ac i drin y gwallt os oes llau pen yn bresennol.

Mae gwybodaeth bellach am driniaethau llau pen ar wefan Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru.

https://www.wmic.wales.nhs.uk/common-ailments-service/

## Ymgeisio am le yn y dosbarth Derbyn 2025

**Os ydych yn nosbarth Math/ Meithrin, cofiwch fod dal angen i chi ymgeisio am le yn y dosbarth Derbyn ar gyfer Medi 25.**

**Dyma'r linc ar gyfer ymgeisio am le:**
https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Gwneud-cais-am-le-mewn-ysgol/Ysgol-Gynradd/Pages/default.aspx

**Bydd angen ymgeisio am le cyn y 13eg o Ionawr.**

## Patrwm Iaith

**Wythnos nesaf, dyma batrwm iaith yr wythnos**
Beth wyt ti am wneud dros y gwyliau?

**Her**
Edrychaf ymlaen at wneud/ fynd

**Testun trafod yr wythnos**
Un person yr hoffwn gwrdd ag ef/hi yw…

**Cân yr wythnos**
Al Lewis - Clychau'r Ceirw

**Idiom yr wythnos**
Siarad trwy ei het